

Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion Cyngor llawn gynhaliwyd Nos Fercher 14^{eg} o Fehefin 2017 yn Parc Menai am 7pm

Presennol:

Y Cyng. D Jones-Morris, L James, C Hughes, D W Jones. R G. Roberts

E Jones (Clerc)

Ymddiheuriadau:

Y Cyng, R Jones , H Griffiths, M Baines, J Pierce, B Jones, T Anwyl-Williams ag A Thomas,

Cadeirwyd ag offrymwyd gweddi gan Cyng Cynrig E Hughes.

Tra'n bod yn ymwybodol y byddai sawl un yn mynd i fod yn absennol heno oherwydd Cyfarfod Blynyddol Canolfan Penrhos a Cyfarfod Arfon/Dwyfor Unllais Cymru, ymhelaethodd y Cadeirydd iddo dderbyn galwad ffon gan y Cyng Anwen Thomas yn ymddiheuro ond hefyd yn ychwanegu ei bod bellach yn ei ffeindio yn anodd cael yr amser i fynychu cyfarfodydd y cyngor.

Diolchodd iddi am yr ymddiheuriad a cadarnhawyd y bydd Anwen yn ysgrifennu llythyr ymddiswyddiad. Cadarnhawyd gan iddi fod wedi ymddiheuro i gyfarfod Mis Mai nad oedd hyd yn hyn wedi cwblhau ffurflen derbyn swydd cynghorwyr

Derbyn cofnodion Mis Mai

Derbynwyd y cofnodion fel cofnod cywir. Cyng D Jones-Morris yn cynnig a Cyng Richard G Roberts yn eilio.

Materion yn codi o'r cofnodion

1. Torri gwair – tra fod y gwair wedi ei dorri a'i gasglu ddigon taclus ddechrau yr wythnos 'roedd gryn amser ers y toriad blaenorol ag angen torri yn amlach.
Nodwyd fod gwrychoedd mewn sawl man ar ochr palmenmydd angen eu torri yn ol
Nodwyd a chynnig fod y Cyngor ond yn defnyddio cerbydau oedd heb 'logo' Cartrefi
Cymunedol Gwynedd arnynt wrth dorri gwair llefydd tu allan i gytundeb CCG.

Clerc i godi yn ddau fater wrth gyfarfod a swyddogion Gwynedd dydd Gwener

2. Canolfan Penrhos
Y Cyngor wedi derbyn dogfen parthed adnewyddu Prydles y Ganolfan sy'n dod i ben Mis Awst eleni, ond nid oedd y Cyngor yn fodlon ar ei chynnwys o'i chymharu a'r brydles bresennol.

Cytunwyd i drefnu cyfarfod i gymharu a ddau gytundeb, a disgwyl am ymateb cyfarfod Cyffredinol y Ganolfan oedd ymlaen heno

Adroddiad Is-bwyllgor Cyllid

Darllenwyd cofnodion yr Is Bwyllgor Cyllid 24ain o Fai 2017

Cytunwyd talu y rhestr taliadau oedd yr IBC yn argymhell eu talu

Llythyr gan Llyr Ap Glyn am ad-daliad costau ffon 2016-17	£150.00	
Talu Opus Energy	£53.59	Trydan y swyddfa
Cyngor Gwynedd	£641.60	NDR
D W Lewis	£610.00	Torri gwair Mis Ebrill
D E Williams	£600.00	Gosod Cysgodfan Treborth
Cwmni Ysw AON	£1768-51	Yswiriant

'Roedd adroddiad ariannol y Cyngor am y Flwyddyn 2016-17 yn dal gyda'r Archwilwyr mewnol ag ond adroddiad ar lafar fod popeth i'w weld mewn trefn.

Rhoddyd caniatad a mandad i'r Is Bwyllgor Cyllid fyddai yn cyfarfod Nos Fercher 28ain o Fehefin i dderbyn yr adroddiad ariannol a'i chymeradwyo i'r Cadeirydd ei arwyddo cyn ei anfon i'r Archwilwyr Allannol

Y Clerc yn dal mewn cyswllt a'r archwilwyr allannol BDO ynglyn a materion o adroddiad ariannol 2015-16 ond yn ffyddiog eu bod bellach yn fodlon ei chadarnhau yn gywir

Cais C17/0452/25/LL Codi adeilad allanol Garth farm LL56 4QE **DIM GWRTHWYNEBIAD**

Cais C17/0505/25/LL Codi Annedd ag adeilad Amaethyddol Bryn Gwredog LL57 4UF **DIM GWRTHWYNEBIAD ond nodi fod angen i Cyng Gwynedd fod yn gyson wrth ystyried codi Anneddau newydd ar dir amaethyddol**

Cais C17/0515/25/HY Codi Arwydd ar bolyn arwahan Cae Garnedd LL57 2PS **GWRTHWYNEBU ar sail maint arwydd (hysbysebiad) o'r fath.** *Nodwyd nad oed Cyng R.G.Roberts yn gwrthwynebu*

Materion y Clerc

- Gohebiaethau
 - Ymgynghoriad Gwasanaeth Tan ag Achub Gogledd Cymru
Cyng L James yn cytuno i ymateb i'r holiadur
 - Llythyr Unllais Arfon/Dwyfor
Llythyr wedi ei dderbyn a'r Cyng Bernard Jones yn mynychu
 - Prydles Canolfan Penrhos
 - **Y Cadeirydd a'r Cyng L James , D Jones-Morris a'r Clerc i gyfarfod 9.30 bore 22ain o Fehefin i gymharu y ddwy brydles**
 - Yswiriant - Gwynedd angen copi **Polisi yn nwylo i Pwyllgor Rheoli**
 - Gwahoddiad i Noson o ddiolchiadau i Gyfeillion Ysbyty Gwynedd
Cyng Richard Gwynedd am fynychu
 - Cadarnhau lleoliadau Hysbysfyrddau i'r Adran Gynllunio
 - Yn benodol ardal mynedfa Ysb Gwynedd – **Clerc i ddarparu Llythyr a copi o'r map lleoliad i Cyng Dafydd Jones-Morris**
 - Mapiau
 - Trefn Dosbarthu
 - Cadarnhau Hawlfraint ar gyfer eu defnydd ar y We
Clerc i gysylltu a Gareth Roberts a holi am fapiau'r hysbysfyrddau
 - Cysgodfan Treborth
Tra ei bod yn ei lle cwyn ei bod rhy bell yn ol i weld y bws a'r 'base' ddim digon mawr
 - Safle bws Cae Garnedd
Caniatad gan Cyng Gwynedd ond **angen i'r Clerc gylch lythyru tai cyfagos**
 - Fynwent - Dim i'w adrodd
 - Torri gwair - **Clerc yn cyfarfod swyddogion o Wynedd dydd gwener 16theg o Fehefin**
 - Cytuno ar ddyddiad i'r Is bwyllgor Asedau
Ond un o'r is bwyllgor yn bresennol ond angen cyfarfod cyn yr Is Bwyllgor Cyllid
 - Llaw-lyfr aelodau a'i gynnwys
Gwaith eisioes wedi ei ddechrau ar y llawlyfr – **cytuno i gynnwys enwau, cyfeiriad a rhifau cyswllt. Dyddiadau y gwahanol bwyllgorau a'r Cyngor Llawn Cyfrinair i fynd i Safle We Unllais**

Materion Cynghorwyr

Y Cadeirydd a Cyng L James yn codi ymwybyddiaeth o'r ymchwiliad cyhoeddus i Ffordd Osgoi Bontnewydd ag un opsiwn (9) allai gael effaith andwyol ar ardal Pentir tae'r dyfarniad yn penderfynu arni. **Clerc i gysylltu llythyr ag e-bost i wrthwynebu opsiwn 9**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15